



Cyngor Bwrdeistref Sirol
MERTHYR TUDFUL
MERTHYR TYDFIL
County Borough Council

DATGANIAD LLESIANT



2017 – 2022

2021/22 – Fersiwn 5



Cynnwys

Rhagair gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr.....	3
Adran 1 – Cyflwyniad.....	5
1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.....	5
1.2 Datganiad Llesiant.....	5
1.3 Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy.....	5
1.4 Ein Blaenoriaethau Corfforaethol Ehangach.....	8
Adran 2 – Amcanion Llesiant.....	9
2.1 – Y Dechrau Gorau i Fywyd	10
2.2 – Bywyd Gwaith	12
2.3 – Llesiant Amgylcheddol.....	14
2.4 – Byw'n Dda.....	16
Adran 3 – Adfer → Trawsnewid → Gwella	19
3.1 – Meysydd Blaenoriaeth	19
3.2 – Cefnogi'r Cynllun	20
Adran 4 – Trechu Tlodi yn ein Cymunedau	21
Atodiadau.....	23

Rhagair gan Arweinydd y Cyngor a'r Prif Weithredwr



Y Cyngorydd Lisa Mytton

Arweinydd y Cyngor



Ellis Cooper

Y Prif Weithredwr

Ar ran Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful, mae'n bleser gennym gyflwyno ein Datganiad Llesiant sy'n nodi ein hamcanion llesiant ar gyfer y gymuned o 2017 i 2022. Datblygwyd yr amcanion hyn fel rhan o lansiad y cynllun yn 2017, mewn ymateb i Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Datblygwyd yr amcanion gyda thros flwyddyn o ystyriaeth ofalus i gymunedau Merthyr Tudful, a'n lleoliad rhanbarthol a chenedlaethol. Roedd yr ymarfer yn cynnwys ymgynghori ac ymgysylltu helaeth â chymunedau a rhanddeiliaid eraill, a gasglwyd yn asesiadau Cwm Taf o'i lesiant a'i boblogaeth.

Dros y 4 blynedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi newid y ffordd y mae'n gweithio er mwyn cyflawni'r amcanion dan sylw yn well ac mae hyn parhau i fod yn wir. Wrth wneud hynny, rydym yn parhau i gasglu pwyntiau dysgu allweddol ac yn symleiddio ein prosesau er mwyn canolbwyntio mwy ar y deilliannau a darddodd o'n hymgyngoriad a'n hymgysylltiad â rhanddeiliaid. Fel y nodwyd yn y blynyddoedd blaenorol, ar ôl ein hymateb cyntaf i'r Ddeddf, nid yw ein hamcanion wedi newid ond maent wedi dod yn fwy penodol. Rydyn ni'n dal yn hyderus fod ein hamcanion llesiant yn gosod y sylfaen ar gyfer cynllun effeithiol gan y Cyngor.

Mae ein hamcanion llesiant yn ceisio sicrhau gwelliannau parhaus yn llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful, yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r ffocws yn dal i fod ar gynorthwyo pobl pan fyddant ei angen fwyaf a rhoi iddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fyw bywydau llawn. Bydd hyn yn cael ei wneud trwy newid ein dull o ganolbwyntio ar y 5 Ffordd o Weithio fel y nodir yn Ndedf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae ein hamcanion llesiant wedi'u paratoi a'u cyflwyno mewn cyfnod o her a newid yn enwedig wrth inni ymateb i bandemig y coronafeirws a symud tuag at adferiad. Ni fu hi erioed mor bwysig i wneud pethau'n wahanol, ac i wneud gwell defnydd o'n hasedau a gweithio'n ddoethach. Mae'r Cyngor yn bwriadu gwneud defnydd effeithiol o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i ddiogelu llesiant Merthyr Tudful yn awr ac i'r dyfodol.

Mae pethau'n newid ychydig yn 2022. Byddwn yn adolygu ac yn adnewyddu ein Cynllun Llesiant Corfforaethol i wneud yn siŵr ein bod yn dal i ddiwallu anghenion ein cymunedau. Byddwn yn defnyddio canfyddiadau'r ymgysylltu a'rymgynghori a wnaed yn ein rhanbarth ac yn adeiladu ar hyn. Byddwn hefyd yn cynhyrchu ein "Hadroddiad Hunanasesu" cyntaf i gyflawni ein dyletswyddau o dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 newydd. Bydd yr adroddiad hwn yn disodli ein Hadroddiad Perfformiad Blynyddol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i ni weithio'n wahanol wrth gyflwyno ein Cynllun Llesiant Corfforaethol. Byddwn yn gwneud hyn trwy ddefnyddio'r 5 Ffordd o Weithio a sicrhau bod y 7 Amcan Llesiant bob amser wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Mae cyhoeddi'r Datganiad hwn a'r Cynllun Llesiant Corfforaethol (Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned) yn cael ei wneud yn ystod pandemig y coronafeirws. O'r herwydd, byddwn yn cyflawni ein cynlluniau a'n hamcanion llesiant fel rhan o'n hymateb i'r pandemig wrth inni symud tuag at adferiad.

Dyma ein **4 Amcan Llesiant**. Cliciwch ar yr eiconau i ddarganfod mwy.



**Y Dechrau
Gorau i Fywyd**



Bywyd Gwaith



**Llesiant
Amgylcheddol**



Byw'n Dda

Lisa Mytton

Arweinydd y Cyngor

Ellis Cooper

Y Prif Weithredwr Dros Dro

Adran 1 – Cyflwyniad

1.1 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r Ddeddf yn ymwneud â gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Cymru. Am y tro cyntaf yn ôl y gyfraith, mae gan gyrff cyhoeddus bwrpas cyffredin a gweledigaeth a rennir yn genedlaethol.

Mae'r Ddeddf yn rhoi 7 Nod Llesiant Cenedlaethol ar waith i sicrhau bod pob un ohonom yn gweithio tuag at gyflawni'r weledigaeth a rennir. Mae gan bob un o'r nodau ddisgrifydd i adeiladu dealltwriaeth gyffredin ([Atodiad 1](#)).

Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd gyfreithiol ar gyrff cyhoeddus i fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth bennu amcanion llesiant ac wrth gymryd camau i gyflawni'r amcanion hynny. Yn ôl y Ddeddf, mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n cael ei nodi gan y 5 Ffordd o Weithio ([Atodiad 2](#)).

1.2 Datganiad Llesiant

Yn ein Datganiad Llesiant, rydym yn nodi cwmpas pob amcan llesiant. Wrth wneud hynny, amlinellwn pam yr ydym o'r farn y bydd cwrdd â'r amcan yn gwneud y gorau o'n cyfraniad tuag at gyflawni'r 7 Nod Llesiant.

Mae'r Datganiad Llesiant yn cyfleu'n glir y cysylltiadau rhwng pob un o'n hamcanion llesiant. Mae hyn yn ein helpu i sicrhau dull integredig a chydweithredol o gyflawni pob un o'r 7 Nod Llesiant.

Yn y tymor hir, mae ein hamcanion llesiant yn ceisio gwneud yn siŵr ein bod yn sicrhau gwelliannau ym mhob un o'r 4 Piler Llesiant (economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol) ar gyfer y bobl sy'n byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful yn awr ac yn y dyfodol.

1.3 Yr Egwyddor Datblygu Cynaliadwy

Fel corff cyhoeddus, mae angen i ni sicrhau bod y ffordd rydym yn gweithio yn cyd-fynd â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn nodi 5 Ffordd o Weithio i'n helpu ni i gydweithio'n well, osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol, a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor a wynebwn.

Mae'r modd yr ydym wedi cymhwyso'r egwyddor hon wrth osod ac adolygu ein hamcanion, ynghyd â'r modd rydym yn newid trwy gymhwyso'r 5 Ffordd o Weithio, wedi'u cynnwys isod.

Y 5 Ffordd o Weithio	Y ffordd rydym wedi cymhwyso'r egwyddor hon wrth osod ac adolygu ein hamcanion	Y modd rydym yn defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio
 Hirdymor Pwysigrwydd cydbwyso anghenion byrdymor gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd.	Mae defnyddio'r rhagamcanion poblogaeth ar gyfer y Fwrdeistref Sirol wedi helpu i sicrhau ffocws ar yr amodau sydd eu hangen yn y tymor hir i dyfu a chadw'r boblogaeth oed gweithio.	Rydym yn newid trwy: ddefnyddio ein hasesiadau effaith diweddaraf yn unol â'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol gan alluogi inni wneud penderfyniadau mwy gwybodus. Mae gennym Gynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella gyda Datganiad Cenhadaeth sy'n gwneud inni ystyried y tymor hir.
 Atal Y modd y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion.	Mae lleihau'r posibilrwydd o "weithio seilo" drwy gynnwys yr holl wasanaethau a all gyfrannu at gyflawni amcan llesiant wedi ein helpu i gydweithio'n well, sicrhau ffocws ar ataliad, a gwneud penderfyniadau sy'n fwy integredig a chydweithredol.	Rydym yn newid trwy: ddefnyddio'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant yn ein gwaith; trechu tlodi trwy raglenni a fydd yn ein helpu i ystyried ataliad, gan gynnwys canlyniadau anfwriadol a ddaw yn sgil penderfyniadau ehangach; cynnwys ataliad yn ein hymateb i bandemig y coronafeirws.
 Integreiddio Ystyried y ffordd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.	Integreiddio adnoddau o fewn y Cyngor i wneud y mwyaf o'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth gyfunol er mwyn helpu i adeiladu amcanion llesiant y mae pawb yn eu deall.	Rydym yn newid trwy: ganolbwyntio ar integreiddio ein cynlluniau, gan gynnwys ein Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella fel bod gennym y cyfraniad mwyaf tuag at ein hamcanion llesiant a'n nodau cenedlaethol; blaenoriaethu ein deilliannau a gweithredu ein Rhaglen Gwella Llywodraethiant i gael yr effaith gadarnhaol fwyaf ar ein hamcanion llesiant ac ar gefnogaeth ein partneriaid (e.e. dulliau gweithredu Tîm Merthyr).



Cydweithio

Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant.

Buom yn cydweithio ag amryw o randdeiliaid wrth ddatblygu ein hamcanion llesiant. Buom yn cydweithio ag uwch swyddogion ar draws y Cyngor wrth ddadansoddi gwybodaeth yr asesiad a datblygu'r amcanion llesiant. Mae hyn yn ein helpu i gynyddu ymwybyddiaeth a phrofiad ymarferol o'r 5 Ffordd o Weithio ar draws y gwasanaethau.



Cymryd Rhan

Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu.

Cynnwys pobl sy'n ymweld, yn byw ac yn gweithio ym Merthyr Tudful wrth i ni gynnal ein hasesiad llesiant. Roedd cyfranogiad lleol yn canolbwyntio ar ddeall llesiant personol a chynhyrchu gwybodaeth yn seiliedig ar gryfder trwy ofyn cwestiynau fel "Beth sy'n dda yn eich cymunedau?" a "Beth fyddai'n gwneud eich cymunedau'n well?"

Rydym yn newid trwy:

adeiladu ar waith rydym wedi'i wneud gyda phartneriaid trwy gydol y pandemig; meithrin dulliau gweithredu Tîm Merthyr â'n partneriaid i ddefnyddio adnoddau'n well a chael mwy o effaith ar gyflawni ein hamcanion llesiant a chyfrannu at y nodau cenedlaethol; integreiddio ein hamcanion BGC yn y cynllun hwn.

Rydym yn newid trwy:


gynnwys ac ymgysylltu â'n preswylwyr, staff, partneriaid, busnesau ac undebau llafur fel y gallant ein hysbysu a'n helpu ni i lunio ein taith a chael deilliannau gwell - mae enghreifftiau'n cynnwys ein Strategaeth Codi Dyheadau Codi Safonau, dulliau gweithredu Tîm Merthyr a'r Bartneriaeth Busnes, Addysg a Hyfforddiant; cryfhau ein swyddogaeth graffu fel rhan o'n Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella.

1.4 Ein Blaenoriaethau Corfforaethol Ehangach

Yn 2017, cytunwyd ar amcanion Cynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf gan bartneriaid. Mae Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwellu'r Cyngor yn gosod tair blaenoriaeth fel yr eglurir yn adran 3 isod. Trwy osod y blaenoriaethau hyn, gallwn ganolbwyntio ein hadnoddau i gyflawni ein hamcanion llesiant yn well. Mae'r ffeithlun gyferbyn ynghyd â'n Gweledigaeth a Rennir ([Atodiad 3](#)) yn amlinellu'r modd y mae'r rhain i gyd yn ffitio gyda'i gilydd i sicrhau bod unrhyw effaith awneiryn erbyn y deilliannau hyn yn cael ei chydlynu i sicrhau'r budd mwyaf posibl.

Mae'r ddogfen "[Ein Gweledigaeth a Rennir](#)" yn dangos ein hamcanion rhanbarthol a'n nodau cenedlaethol. Caiff ein hamcanion a'n deilliannau lleoleu crynhoi mewn strategaeth ar dudalen (SAD) er mwyn i Swyddogion gyflwyno a mesur deilliannau. Y 5 Ffordd o Weithio yw'r mecanwaith ar gyfer cyflwyno a newid gwasanaethau. Ers cychwyniad y Ddeddf, diweddarwyd Fframwaith Rheoli Prosiectau a Newid y Cyngor (gan gynnwys ein hasesiad effaith integredig) er mwyn sicrhau bod y 7 Nod Cenedlaethol, y 4 Amcan Llesiant Lleol a'r 5 Ffordd o Weithio yn cael eu hymgorffori yn y broses o lunio a gweithredu penderfyniadau.

Mae amcanion tîm ac unigol hefyd yn cael eu llywio'n sylfaenol gan y 7 Nod Cenedlaethol, y 4 Amcan Llesiant Lleol a'r 5 Ffordd o Weithio. Caiff hyn ei adlewyrchu mewn cyfarfodydd unigol ar sail un-i-un ac mewn arfarniadau rhwng aelodau'r staff a'u rheolwr. Felly, bydd pob aelod o'r tîm yn gallu gweld y ffordd y mae ei rôl yn helpu i gyflawni ein hamcanion llesiant ac, yn wir, y 7 Nod Cenedlaethol. Dangosirhyn yn yr '[Edefyn Euraidd](#)' (dolen o'r amcanion personol i nodau'r tîm a'n hamcanion llesiant a'n gweledigaeth). Yn yr un modd, neu'n bwysicach efallai, mae ffyrdd o weithio'n cael eu hadolygu a'u newid yn barhaus gyda'r regwyddor datblygu cynaliadwy ac mae hynny'n galluogitau i weithio'n gallach, ac nid wastad yn galetach.



Adran 2 – Amcanion Llesiant

Llesiant ym Merthyr Tudful

Fel rhan o'n dyletswydd Llesiant o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, ailffocysodd y Cyngor ei amcanion Llesiant a'u cyhoeddi ym mis Mawrth 2022 fel y nodir yn ein cynllun, "Ffocws ar y Dyfodol: Llesiant yn ein Cymuned".

Cynhaliwyd asesiad o lesiant y boblogaeth gan y sefydliadau hynny sy'n aelodau o Bartneriaeth Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf er mwyn datblygu ein dealltwriaeth o sut i gael effaith gadarnhaol ar lesiant ac i nodi'r hyn sy'n bwysig i gymunedau. Cyhoeddwyd asesiad o anghenion ym mis Mawrth 2017 a gellir ei weld ar y wefan '[Ein Cwm Taf Ni](#)'. Mae'rwybodaeth hon wedi helpu i unio'r amcanion Llesiant ac i ddeall yr ymatebion posibl i wella Llesiant. Cafodd yr asesiadau anghenion yn 2021 eu cynnal ar draws Cwm Taf Morgannwg (a chânt eu defnyddio yng nghynlluniau'r dyfodol). Dylid nodi bod Cwm Taf Morgannwg yn cynnwys 3 ardal awdurdod lleol: Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Phen-y-bont ar Ogwr. Ar ôl eu dadansoddi, bydd Asesiadau o Anghenion 2021 yn cael eu defnyddio i lywio ein cynllun Llesiant corfforaethol a'n cynlluniau strategol eraill.

Mae gan y Cyngor ddyletswydd i sicrhau bod ei amcanion Llesiant wedi'u cynllunio i wneud y mwyaf o'i gyfraniad at gyflawni pob un o'r 7 Nod Llesiant. Wrth wneud hynny, rhaid i'r Cyngor gymryd pob cam rhesymol wrth arfer ei swyddogaethau i gyflawni'r amcanion hynny.

Yn dilyn yr ymarferion ailffocysu a wnaethom, mae ein hamcanion Llesiant lleol yn parhau'n 4 o ran nifer fel y llynedd (roedd hyn i'w ddisgwyl gan ei fod yn gynllun tymor hwy). Nod hyn yw sicrhau bod mwy o ffocws yn cael ei roi ar gyflwyniad, perfformiad agwella atebolrwydd. Wedi'i drefnu yn ôl thema Llesiant, mae gan bob amcan Llesiant ddeilliannau clir a fydd yn ein helpu i ymateb i anghenion y gymuned leol achyfrannu at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol. Mae gan bob amcan Llesiant flaenoriaeth a fydd yn rhoi ffocws pellach i ni gael yr effaith fwyaf ar ddeilliannau ar gyfer ein preswylwyr.

Thema Llesiant	Amcan	Prif Ddeiliant
 Y Dechrau Gorau	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.	Gwella deilliannau addysgol pob plentyn a pherson ifanc.
 Bywyd Gwaith	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau fydd yn diwallu anghenion busnes, a hynny o fewn seilwaith datblygol a diogel sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.	Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith fel y gall busnesau ffynnu.
 Llesiant Amgylcheddol	Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad.	Cynyddu hyd yr eithaf y deunyddiau a'r adnoddau sy'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu yn unol â'r hierarchaeth wastraff.
 Byw'n Dda	Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.	Sicrhau bod pobl yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau.



2.1 – Y Dechrau Gorau i Fywyd



Aelod Portffolio
Cynghorydd Lisa Mytton


Amcan	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus.
Prif Ddeilliant	Gwella deilliannau addysgol pob plentyn a pherson ifanc.
Swyddog Arweiniol	Cyfarwyddwr - Dysgu
Y Ffocws ar Welliant	Gwella ein Safonau Addysg

Mae llesiant ein plant a'n pobl ifanc o'r pwys mwyaf, hyd yn oed yn fwy felly wrth i ni symud allan o bandemig y coronafeirws. Pan fydd gan blant a phobl ifanc iechyd a llesiant gwell, maen nhw'n fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu ac yn y pen draw, gyflawni safonau academiaidd gwell. Mae codi safonau cyrhaeddiad yn flaenoriaeth allweddol i'r Cyngor ond mae'n rhaid gosod hyn yng nghyd-destun yr ymdrechion i adfer ar ôl y pandemig ac i weithio mewn partneriaeth. Rydyn ni'n cydnabod yr angen i weithio gyda theuluoedd ar y cyfle cyntaf posibl er mwyn sicrhau bod ein plant yn cael y cymorth gorau i ennill y sgiliau sydd eu hangen arnynt i gyrraedd eu nodau a'u potensial academiaidd. Mae'n bwysig sylweddoli bod gwireddu'r uchelgais hwn yn fusnes i bawb: mae gan leoliadau'r blynyddoedd cynnar, teuluoedd, lleoliadau ieuencid, ysgolion, a phartneriaid ehangach, rôl allweddol i'w chwarae fel bod ein plant a'n pobl ifanc yn cael y Dechrau Gorau i Fywyd.

Mae addysg yn un o ragfynegwyr clir i'w gweld ar gyfer deilliannau bywyd, megis cyflogaeth, incwm astatws cymdeithasol, ac mae hefyd yn rhagfynegi agweddau a llesiant. Mae'r amcan yn integreiddio'r daith addysgol gyflawn, o'r blynyddoedd cynnar hyd at y blynyddoedd gorfodol ac ôl-16. Mae'r amcan yn rhoi sgiliau aphriodoleddau i blant a phobl ifanc i'w helpu i wella'u bywydau eu hunain.

Mae gwella cefnogaeth y blynyddoedd cynnar yn hanfodol wrth fynd i'r afael â phrofiadau niweidiol adeg plentyndod, a gwyddom fod y profiadau hyn yn cael effaith niweidiol ar iechyd a llesiant yn y dyfodol. Rydym yn diffinio'r blynyddoedd cynnar fel y cyfnod cyn-genï hyd 7 oed. Mae'r diffiniad eang hwn yn cydnabod pwysigrwydd beichiogrwydd o ran dylanwadu ar ddeilliannau, a bod pontio i'r ysgol gynradd yn gyfnod tyngedfennol ym mywydau plant.

Mae'n cael ei dderbyn yn eang ei fod yn werth i ysgolion hybu iechyd a llesiant ymhlith disgyblion. Mae disgyblion sydd â gwell iechyd a llesiant yn fwy tebygol o fod yn barod i ddysgu a chyflawni'n well yn academiaidd. Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig dull cyfannol a chynaliadwy i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc. Er bod y dull hwn yn bwysig i bob plentyn, bydd o fudd yn bennaf i'r plant hynny sy'n wynebu anhawster neu sydd â risg uchel o ddeilliannau gwaeth yn hwyrach mewn bywyd. Dyma'r deilliannau allweddol ar gyfery Dechrau Gorau i Fwyd:



Mae'r risg o ddeilliannau gwaeth i blant atheuluoedd yn cyd-fynd yn gryf â ffactorau sylfaenol, gan gynnwys tlodi, amddifadedd a lefelau cymwysterau isel y rhieni. Mae straen ehangach megis dyled, camddefnyddio sylweddau, tai gwaeth a diffyg cyflogaeth hefyd yn effeithio ar ddatblygiad plant aphobl ifanc.

Rhaid i'r dechrau gorau i fywyd weithio ochr yn ochr â'n hamcanion llesiant eraill i fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:



Bywyd Gwaith

Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau fydd yn diwallu anghenion busnes, a hynny o fewn seilwaith datblygol a diogel sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.



Byw'n Dda

Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliolda.

Er mwyn manteisio i'r eithaf ar ein siawns o gyflawni'r dechrau gorau, bydd angen ymateb integredig ar draws ein holl amcanion llesiant trwy weithredu'r 5 Ffordd o Weithio. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith a wnaethom yn ystod pandemig y coronafeirws i gynnwys dysgwyr yn ddigidol.



2.2 – Bywyd Gwaith




Aelod Portffolio
Cynghorydd Geraint Thomas

Amcan	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau fydd yn diwallu anghenion busnes, a hynny o fewn seilwaith datblygol a diogel sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.
Prif Ddeilliant	Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith fel y gall busnesau ffynnu.
Swyddog Arweiniol	Y Dirprwy Brif Weithredwr
Y Ffocws ar Welliant	Adferiad Economaidd

Fel Cyngor, rydyn ni'n canolbwyntio ar gefnogi ein trigolion, ein busnesau a'n heconomi. Byddwn yn parhau i gydweithio i gyflawni ein 3 Deilliant Allweddol, sef: Merthyr Tudful yn cyflawni ei photensial economaidd llawn, gyda gweithlu medrus a gwell cyfleoedd cyflogaeth; pobl yn gwerthfawrogi ac yn mwynhau'r amgylchedd adeiledig a naturiol, gan ddiogelu a gwella'u hasedau diwylliannol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol; cymunedau cryf, cydnerth a chefnogol lle mae pobl yn cymryd cyfrifoldeb am eu gweithredoedd eu hunain a'r modd y maen nhw'n effeithio ar eraill. Gan ddefnyddio'r Cynllun Adfer Economaidd ynghyd â'r Weledigaeth Economaidd 15 mlynedd ar gyfer y Fwrdeistref Sirol a gymeradwywyd gan y Cyngor ym mis Tachwedd 2021, byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i ddatblygu a thargedu ein hymatebion i'r heriau a ddaw i'n rhan fel ein bod yn gwella'r gefnogaeth a rown i'n cymunedau.

Mae ymchwil [JRF (2015) Monitro Tlodi ac Allgáu Cymdeithasol] yn dangos bod pobl sydd heb unrhyw gymwysterau addysgol yn fwy tebygol o fod ag incwm cymharol isel a bod pobl nad ydynt mewn cyflogaeth heb unrhyw gymhwyster, yn fwy tebygol o fod yn economaidd anweithgar. Mae ynahefyd dystiolaeth sy'n awgrymu bod amgylchedd trefol a reolir yn dda a gwasanaethau lleol o ansawdd uchel, yn bwysig i greu amodau sy'n ddeniadol i fuddsoddwyr busnes, ymwelwyr a thrigolion lleol.

Pan fydd pobl leol yn siarad am ddiwylliant, cyfeirir ato'n aml fel cyfle i ddathlu. Mae Canol y Dref ar ei newydd wedd wedi dod yn ased ar gyfer cynnal gweithgareddau diwylliannol sy'n dod â phobl ynghyd, ac mae ar fin datblygu ymhellach. Mae gwneud cysylltiadau cymdeithasol drwy'r mathau hyn o ddigwyddiadau yn cydberthyn yn uniongyrchol i welliannau mewn llesiant corfforol ameddyliol, agall helpu i frwydro yn erbyn y twf mewn unigedd ac unigrwydd cymdeithasol. Gall digwyddiadau diwylliannol hefyd helpu i hybu ffyniant y Fwrdeistref Sirol trwy ddenu ymwelwyr a thwristiaid, gan ddarparu cyflogaeth achyfleoedd i ddatblygu sgiliau. Dyma'r prif ddeilliannau y mae Bywyd Gwaith am eu gwireddu:



Ategir y cynnydd yn erbyn y deilliannau a nodir yn y Cynllun Llesiant Corfforaethol gan ddull mwy integredig achydweithredol. Byddwn yn parhau i adeiladu ar y cydweithio a roddwyd ar waith wrth ymateb i bandemig y coronafeirws, e.e. cefnogi busnesau trwy weinyddu grantiau a gweithio gyda busnesau a darparwyr hyfforddiant addysg i gefnogi'r dasg o ddatblygu sgiliau a mynd i'r afael â diweithdra. Gellir gweld bod y risg o ddeilliannau economaidd gwaeth yn cyd-fynd â ffactorau gwaelodol eraill, gan gynnwys tlodi a dyled, camddefnyddio sylweddau, tai gwael a straen sy'n gysylltiedig ag iechyd. Mae achosion a chanlyniadau tlodi yn lluosog acyn gymhleth, tragall effaith tlodi fod yn bellgyrhaeddolac yn ddinistriol i lesiant pobl.

Rhaid i'r amcan hwn gydweithio ochr yn ochr â'n hamcanion llesiant eraill sy'n mynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:



**Y Dechrau
Gorau i Fwyd**

Mae plant yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus acyn unigolion hyderus



**Llesiant
Amgylcheddol**

Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd naturiol ac adeiledig a chefn gwlad



Byw'n Dda

Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol ameddyliol da

Er mwyn cyflawni'r deilliannau a ddynodwyd o fewn Bywyd Gwaith, bydd yn ofynnol cael ymateb integredig ar draws ein holl nodau llesiant trwy weithredu'r 5 Ffordd o Weithio.



2.3 – Llesiant Amgylcheddol



Aelod Portffolio
Cynghorydd Michelle Jones


Amcan	Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad
Prif Ddeiliant	Cynyddu hyd yr eithaf y deunyddiau a'r adnoddau sy'n cael eu hailddefnyddio a'u hailgylchu yn unol â'r hierarchaeth wastraff
Swyddog Arweiniol	Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdogaeth
Y Ffocws ar Welliant	Llesiant Amgylcheddol

Mae'r amcan Llesiant Amgylcheddol yn cynnig dull cyfannol a chynaliadwy i fodloni'r anghenion llesiant ym Merthyr Tudful. Ein blaenoriaeth yw gweithio tuag at darged Cymru i ddod yn genedl ddiwasttraff erbyn 2050 a chwarae ein rhan yn y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddod yn garbon niwtral erbyn 2030. Bydd ein gweithrediadau a'n defnydd o'r amgylchedd yn ffactorau hanfodol yn nyfodol cynaliadwy Merthyr Tudful oherwydd bydd y manteision o wella ein hamgylchedd yn cael eu teimlogan bawb. Trwy gynyddu ein gallu i wrthsefyll y peryglon a ddaw yn sgil newid hinsawdd, byddwn yn lleihau'r risg o lifogydd yn difrodi adeiladau, seilwaith a gwasanaethau, ac yn gwella mannau gwyrdd. Mae treulio amser mewn mannau gwyrdd neu naturiol yn dod â manteision mawr i lesiant y corff a'r meddwl.

Mae amgylchedd a chefn gwlad iach a naturiol yn rhoi llu o fanteision i bobl abywyd gwyllt. Mae'n cynnig aer, dŵrathir o ansawdd gwell, yn diogelu cynefinoedd a bioamrywiaeth, ac yn gwella iechyd corfforol a meddyliol [Adroddiad Blynyddol y Prif Swyddog Meddygol 2014-15; Cwrs Bywyd, Mannau Gwyrdd ac Iechyd, 2016]. Bydd hyn yn cefnogi ein hadferiad o bandemig y coronafeirws. Ffocws yr amcan llesiant hwn yw'r gwaith a wnawn â'n cymunedau i warchod, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad. Bydd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 yn ein cynorthwyo i wneud hyn.

Bydd y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactor hanfodol i ddyfodol cynaliadwy Merthyr Tudful oherwydd bydd y manteision o wella ein hamgylchedd i'w teimlo ar draws ein holl amcanion llesiant. Rydyn ni'n diffinio'r amgylchedd fel cefn gwlad a phob man gwyrdd (amgylchedd naturiol) a lleoliadau trefol (amgylchedd trefol) o fewn y Fwrdeistref Sirol. Mae'r diffiniad eang hwn o'r amgylchedd yn cydnabod pwysigrwydd natur mewn amgylcheddau gwledig athrefol.

Mae'r amcan llesiant hwn yn cynnig dull cyfannol i fodloni anghenion llesiant ym Merthyr Tudful. Dylai'r anghenion hynnygael eu dehongli'n fras i gynnwys gwyrddfannau o ansawdd, cysylltedd, gwarchodaeth a bioamrywiaeth cynefinoedd, ecosystemau gwydn, cymeriad y dirwedd, ac ataliad llygredd. Er bod y dull hwn yn bwysig i'r amgylchedd yn ei gryswth, bydd yn fuddiol i ardaloedd lle ceir problemau neu risgiau amgylcheddol allweddol. Dyma'r deilliannau allweddol y mae Llesiant Amgylcheddol am eu cyflawni:



Gall materion amgylcheddol lleol gael effeithiau ehangach gan gyfrannu at golli mannau gwyrdd fforddiadwy a hygyrch a chynyddu gwastraff athipio anghyfreithlon. Gan fod yr amgylchedd yn ffactorsylfaenol sy'n dylanwadu ar lawer o amcanion llesiant eraill, mae'r risgiau agyflwynirgan amgylchedd diraddiedig yn niferus (e.e. mynd i'r afael âfandaliaeth a graffiti, diffyg tai fforddiadwy a mannau gwyrdd cyfyngedig). Ffocws yr amcan llesiant hwn yw'r gwaith a wnawn gyda'n rhanddeiliaid i warchod, gwella a hyrwyddo'r amgylchedd a chefn gwlad. Bydd y ffordd yr ydym yn ymddwyn tuag at yr amgylchedd a chefn gwlad yn ffactorhanfodol i ddyfodol cynaliadwy Merthyr Tudful oherwydd bydd y manteision o wella ein hamgylchedd i'w teimlo ar draws ein holl amcanion llesiant.

Rhaid i gymunedau sy'n diogelu, gwellaa hyrwyddo'ramgylchedd a chefn gwlad, gydweithio â'n hamcanion llesiant eraillwrth fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol hyn, yn enwedig:



Bywyd Gwaith

Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau fydd yn diwallu anghenion busnes, a hynny o fewn seilwaith datblygol a diogel sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol



Byw'n Dda

Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliolda



2.4 – Byw'n Dda



Aelod Portffolio
Cynghorydd Tony Rogers

Amcan	Mae gan bobl y grym i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da
Prif Ddeilliant	Sicrhau bod pobl yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau
Swyddog Arweiniol	Cyfarwyddwr – Gwasanaethau Cymdeithasol
Y Ffocws ar Welliant	Cynyddu ein gwytnwch ym maes Gofal Cymdeithasol

Fel yr Aelod Cabinet dros Wasanaethau Cymdeithasol, rwyf i, ochr yn ochr â Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol, cydweithwyr yn y Tîm Rheoli Corfforaethol, Cabinet y Cyngor ac Aelodau ehangach y Cyngor, yn chwarae rhan allweddol yn yr ymdrech i sicrhau bod amcanion llesiant y Cyngor yn cael eu cyflawni'n llwyddiannus. Mae hyn yn cynnwys cyfrifoldeb am yr amcan “Byw'n Dda”, sy'n ceisio sicrhau bod “pobl yn cael eu grymuso i fyw'n annibynnol yn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.”

Byddwn yn parhau i weithio ar ein strategaethau a'n cynlluniau, gan ganolbwyntio ar dri phrif ddeiliant y rhoddwyd blaenoriaeth iddynt: "Mae pobl yn byw bywydau diogel ac annibynnol yn eu cymunedau", "Mae plant ac oedolion yn cael eu gwarchod rhag niwed ac yn teimlo'u bod yn ddiogel" ac "Mae plant a phobl ifanc yn byw yn ddiogel gyda'u teuluoedd neu'n agos at eu cartrefi ac wedi trosglwyddo'n ddai fywyd oedolyn".

Mae ffocws allweddol ar draws y Gwasanaethau i Oedolion a Phlant ar waith Ymyrryd ac Atal yn Gynnar, fel yr amlinellir ym manylion y Cynllun hwn. Mae gwaith cadarnhaol yn cael ei wneud yn fewnol ar draws y cyfarwyddiaethau, ac mae yna berthynas well â'r trydydd sector a gwaith partneriaeth da yn cael ei gynnal ar draws y rhanbarth. Mae gweithio mewn partneriaeth ag Awdurdodau Cyfagos, Bwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg a'r Trydydd Sector wedi bod yn hanfodol ac o'r herwydd, rwy'n teimlo bod y berthynas â'r rheiny'n gryfach nag erioed. Byddwn yn parhau i weithio gyda phartneriaid i sicrhau ein bod yn darparu gwasanaethau i'r rhai mwyaf bregus yn ein plith.

Mae angen cymorth ar bobl i fyw'n annibynnol acyn dda yn eu cymunedau am gyfnod hwy. Mae ymchwil a wnaed gan y Swyddfa Materion Anabledd yn awgrymu bod byw'n annibynnol yn darparu manteision mwy sylweddol ar lefel unigol na mathau confensiynol o ddarparu gwasanaethau. Mae ynahefyd dystiolaeth i awgrymu bod pobl hyn sy'n byw yn lleol yn dymuno parhau i aros yn eu cartrefi cyn hired ag y bo modd.


Mae'r cysylltiad rhwng iechyd corfforol a meddyliol yn ddiymwad. Gall iechyd corfforol gwael arwain at iechyd meddwl gwael ac fel arall. Ac eto, gall iechyd corfforol da wella cyflwr meddwl person a gall meddwl cryf ac iach wella'n sylweddol ein gallu i ymdopi ag anhwylderau corfforol. Ceir corff cynyddol o dystiolaeth sy'n dangos bod naturyn darparu gwerth ychwanegol i'r buddion a ddaw yn sgil gweithgareddau corfforol.

Mae teimlo'n ddiogel yn dylanwadu ar y ffordd y mae pobl yn gwerthfawrogi'u cymuned, ac mae'n bwysig i ansawdd bywyd pobl. Yn aml, dyma'r hyn sy'n penderfynu a yw pobl am fyw ac aros yn eu cymdogaeth ai peidio. Mae dystiolaeth yn awgrymu bod adeiladu hyder agwytnwch mewn unigolion a'u cymunedau yn gam pwysig tuag at wella llesiant.

Mae'r amcan Byw yn Dda yn ceisio canfod a darparu cymorth cynnar effeithiol i oedolion, plant a'u teuluoedd sydd mewn perygl o gael deilliannau gwael. Trwy fynd i'r afael â phroblemau posibl yn gynnar, yn y tymor hwy bydd hyn yn galluogi mwy o bobl i fyw bywydau diogelac annibynnol yn eu cymunedau wrth iddynt fwynhau iechyd corfforol a meddyliol da.

Gall tlodi gael effaith fawr ar bobl a'u gallu i fyw'n annibynnol. Fel bodau cymdeithasol, mae pobl am fod yn aelodau cynhyrchiol agwerthfawro gymdeithas. Mae sawl dimensiwn i dlodi a gall arwain at bobl yn teimlo'n ddi-rym ac yn llai abl i ddelio â phroblemau nas rhagwelwyd megis newidiadau yn y system fudd-daliadau genedlaethol a chostau tai uwch. Mae hyn yn eu rhoi mewn perygl o ddioddef mwy o straen corfforol a meddyliol.

Dyma'r deilliannau allweddol a hirdymor ar gyfer Byw'n Dda:



Yn dilyn adolygiad o'r deilliannau a benwyd ym mlyneddodedd blaenorol y Cynllun, penderfynwyd ailffocysu'rdeilliannau i gefnogi dull mwy integredig/cydwethredol i'wdiwallu, a bydd hyn yn parhau. Byddwn hefyd yn adeiladu ar y gwaith a wnaed wrth ymateb i bandemig y coronafeirws.

Rhaid i'r amcan hwn gydwethio ochr yn ochr â'n hamcanion llesiant eraill wrth fynd i'r afael â'r ffactorau sylfaenol, yn enwedig:

 Y Dechrau Gorau i Fwyd	Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac yn meddu ar y sgiliau y mae eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac yn unigolion hyderus
 Llesiant Amgylcheddol	Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad
 Bywyd Gwaith	Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau fydd yn diwallu anghenion busnes, a hynny o fewn seilwaith datblygol a diogel sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrcftan ddeniadol

Adran 3 – Adfer → Trawsnewid → Gwella

Ar ôl pennu cyllideb gytbwys ar gyfer 2019/2020, fe'n hysgogwyd i ofyn am gefnogaeth oddi wrth Lywodraeth Cymru (LIC) yn ystod y cyfnod heriol hwn. Yn sgil hynny, aeth y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol ati i benodi Bwrdd Gwella a Sicrwydd er mwyn cynnal asesiad cyflym. Er mwyn ymateb i ddeilliannau'r asesiad hwn, rydym wedi datblygu Cynllun Adfer, Trawsnewid a Gwella (RTI).



Datblygwyd y Cynllun RTI yn 2020, yn ystod pandemig y coronafeirws. Fel gyda'r rhan fwyaf o sefydliadau, bu raid inni yn gyntaf ymateb i anghenion ein trigolion yn ystod y pandemig. Yn dilyn hyn, byddwn yn mynd ati i ddelio â gweithgareddau adfer. Mae'r Cynllun RTI yn ddogfen fyw sy'n galluogi inni ganolbwyntio ar gynaliadwyedd wrth adfer ar ôl y pandemig, trawsnewid y ffordd rydym yn gweithio, a gwella deilliannau i'n trigolion. Bydd y Cynllun hwn yn darparu "llwybr gwella" yn y tymor byr, canolig a hir ar gyfer CBSMT. Trwy gyflawni'r Cynllun RTI, rydym mewn sefyllfa well i gyflawni ein hamcanion a'n deilliannau llesiant.

3.1 – Meysydd Blaenoriaeth

Mae ein Cynllun RTI yn nodi **3 maes y mae angen inni fynd i'r afael â hwy ar frys** fel y gallwn gyflawni ein hamcanion llesiant yn well a chynnig deilliannau amgenach i'n preswylwyr.

Dyma ein **3 blaenoriaeth** ar gyfer gwelliant:



Gwella deilliannau addysgol ar gyfer pob plentyn a pherson ifanc



Sicrhau bod pobl yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel yn eu cymunedau




Datblygu'r amgylchedd a'r seilwaith fel y gall busnesau ffynnu

Bydd y rhain yn mynd i'r afael â'n **deilliannau blaenoriaeth**:

3.2 – Cefnogi'r Cynllun

Rydym wedi blaenoriaethu ein gwelliant er mwyn inni fedru defnyddio ein hadnoddau cyfyngedig i ddiwallu anghenion ein trigolion yn y ffordd orau. Gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru, Aelodau Etholedig, ein Staff a'n Partneriaid, byddwn yn creu Cyngor modern ac ystwyth sy'n canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau o safon i bobl Merthyr Tudful. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn rhoi cyfle inni gryfhau ein hunanasesiad a'n hunanwerthusiad ymhellach, a thrwy hynny ein helpu i herio ein deilliannau a gwella.



Er mwyn cyflawni ein deilliannau yn well, mae'n rhaid i ni newid ein ffordd o weithio. Cefnogir y Cynllun RTI gan 4 Rhaglen Waith ar gyfer Trawsnewid y Cyngor Cyfan. Mae'r rhain yn ein helpu i ystyried y **cyfleoedd digidol**, dod yn **fwy ymwybodol yn fasnachol**, cael yr adnoddau cywir (**sefydliad iach**) a **llywodraethiant da** (ein ffordd o weithio).

Rydym wedi datblygu "Fframwaith Rheoli Perfformiad a Sicrhau Ansawdd" sy'n nodi dulliau gweithredu cadarn fel y gallwn reoli ein perfformiad a sicrhau ansawdd. Mae'n cynnwys y ffordd yr ydym yn casglu gwybodaeth a data, yn dadansoddi hyn ac yn cyflwyno ein canfyddiadau. Bydd yn ein helpu i sicrhau ein bod yn dilyn ein systemau a'n prosesau yn gyson ar draws y Cyngor, ac yn sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu yn cael eu defnyddio fel y gallwn reoli ein perfformiad yn well. Bydd y data yn llywio ein Gwaith Craffu ac Adrodd, ein Hadroddiadau Hunanasesu, ein Datganiad Llywodraethu Blynyddol a'n Cynllunio Corfforaethol.



Mae ein Cynllun RTI hefyd yn canolbwyntio ar ddatgarboneiddio ac yn gwneud y mwyaf o ddeunyddiau ac adnoddau sy'n cael eu haildefnyddio a'u hailgylchu yn unol â'r hierarchaeth wastraff. Mae hyn wedi'i gynnwys yn ein **Rhaglen Llesiant Amgylcheddol** ategol.

Er mwyn cyflawni ein cydweledigaeth, mae'n rhaid i ni ddarparu ein gwasanaethau mewn ffordd wahanol. Mae angen inni weld ein bod gweithio gyda'n gilydd yn well ac yn cynnig mwy o syniadau cydgysylltiedig, mwy o bartneriaethau, a mwy o groeso i dechnolegau newydd ac arloesedd. Mabwysiadwyd y dull hwn i'n helpu ni i ymateb i bandemig y coronafeirws.

Adran 4 – Trechu Tlodi yn ein Cymunedau

Cyflwynwyd y ffocws trawsbynciol ar drechu tlodi yn fersiwn 4 ein Datganiad Llesiant (2020/21). Dyma sydd wrth wraidd llawer o broblemau'r presennol a'r dyfodol, yn enwedig yn dilyn pandemig y coronafeirws.



Fe wnaethon ni nodi'r cylch tlodi a'r modd y mae gweithio ar draws ein hamcanion llesiant yn gallu cael effaith gadarnhaol arno. Felly, mae angen inni integreiddio ein strategaethau a chydweithio i fynd i'r afael â'r broblem fileinig hon. Rydym yn cymhwyso'r 5 Ffordd o Weithio i drechu tlodi, ac wrth wneud hynny, bydd yn ein helpu i gefnogi'r dasg o gyflawni'r 7 Nod Cenedlaethol yn well. Bydd hyn yn ein galluogi i gyflawni ein hamcanion a'n deilliannau llesiant yn wellhefyd.

Gall tlodi gael effaith sylweddol ar lesiant pobl. Dyma rai enghreifftiau o hynny:

- **Tai** - Mae hon yn elfen ganolog o ansawdd bywyd ac yn parhau i fod yn un o'r ffactorau sy'n rhoi pwysau ar bobl mewn tlodi, yn enwedig os ydynt yn goroesi ar fudd-daliadau. Gall y cynnydd mewn costau tai arwain at alw uwch am dai cymdeithasol; mewn rhai achosion, gall gynyddu'r risg o ddigartrefedd. Lle ceir digartrefedd, mae tystiolaeth yn awgrymu po hiraf y bydd rhywun yn byw ar y stryd, tebycaf oll y bydd problemau eilaidd megis cardotaneu gamddefnyddio sylweddau yn ychwanegu at y pwysau;
- **Tlodi Bwyd** - Gall hyn beri i bobl fod yn flinedig ac yn ddiegni gan arwain at lefelau canolbwytio is (sy'n arbennig o andwyol i blant ysgol oherwydd gallai effeithio ar eu gallu i ennill cymwysterau a datblygu sgiliau). Bellach, mae tlodi bwyd yn cael ei gydnabod yn ehangach yn ein cymunedau (e.e. trwy wasanaethau agynigirgan Fanc Bwyd Merthyr Cynon);
- **Tlodi mewn Gwaith** - Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, mae Cymru wedi llwyddo i leihau diweithdra a gwella sgiliauoedolion. Fodd bynnag, mae llawero bobl wedi'u "cloi allan" o'r llwyddiant economaidd hwn, gyda'r perygl o dlodi'n cynyddu i bobl mewn teuluoedd sy'n gweithio. Gall swyddi sy'n ansefydlog ac yn cynnig cyflogau isel, ynghyd â chostau byw cynyddol a budd-daliadau annigonol, olygu bod llawero bobl yng Nghymru yn wynebu brwydr ddyddiol i ennill digon o arian i gadw dau ben llinyn ynghyd. O ganlyniad, mae rhai teuluoedd yn wynebu'r dewis rhwng talu am fwyd neu dalu am rent. Gall hyn arwain at fwy o straen a llai o hyder.
- **Tlodi Tanwydd** - Gall hyn arwain at broblemau iechyd wrth i bobl orfod dewis rhwng "gwresogi neu fwyta". Yn ogystal, gall byw mewn tai oer, llaith a thywyll olygu bod rhai pobl yn colli'u cysylltiadau cymdeithasol am eu bod yn amharod i wahodd eraill i'w cartrefi. Gallai hyn arwain at deimlad o fod y tu allan i gymdeithas ac effeithio'n negyddol nid yn unig ar lesiant corfforol ond hefyd ar lesiant meddyliol.

Mae sawl adroddiad wedi amlinellu'r modd y gall **pandemig y coronafeirws effeithio'n andwyol** ar gymunedau sydd eisoes yn profi lefelau uchel o amddifadedd. Cynhyrchodd y "Centre for Towns" eu hadroddiad o'r enw "The Effect of the COVID-19 Pandemic on our Towns and Cities" ym mis Ebrill 2020. Yn yr adroddiad hwn, amlygwyd yr effaith a gafwyd ar drefi oedd yn dibynnu'n fawr ar fanwerthu, tafarndai a bwytai yn ogystal â threfi cyn-ddiwydiannol. Mae hyn yn brif ffactor dros gynnwys Adferiad Economaidd fel blaenoriaeth yn y Cynllun RTI a bydd yn cefnogi ein thema trechu tlodi.

Mae'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol yn rhoi'r modd inni ganolbwyntio o'r newydd ar y ffordd yr ydym yn asesu'r effeithiau a ddaw yn sgil anafanteision economaidd-gymdeithasol, ac yn rhoi'r modd inni wneud penderfyniadau teg. Byddwn yn parhau i sicrhau bod gwasanaethau'n ystyried y ffordd y gallwn fynd i'r afael â thlodi er mwyn lleihau'r effaith ar ein cymunedau. Ar hyn o bryd, rydym yn darparu lluo o wasanaethau mewn partneriaeth â sefydliadau eraill i'n helpu ni i wneud hyn.

Atodiadau

Atodiad 1 – Y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol

	Nodau Cenedlaethol
	
	Cymru Gydnerth Cynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau sy'n cefnogi gwytnwch ac yn addasu i newid (e.e. newid yn yr hinsawdd)
	Cymru Iachach Mae llesiant corfforol a meddyliol pobl yn cael ei gynyddu i'r eithaf a deallir yr effeithiau ar iechyd
	Cymru sy'n Fwy Cyfartal Gall pobl gyflawni eu potensial waeth beth fo'u cefndir neu eu hamgylchiadau
	Cymru o Gymunedau Cydlynus Cymunedau atyniadol, hyfya diogel sydd â chysylltiadau da
	Cymru â Diwylliant Bywiog lle mae'r Gymraeg yn Ffynnu Mae'r iaith Gymraeg a diwylliant Cymru yn rhan annatod o'n cymunedau, ac yn cyfrannu at dreftadaeth gyfoethog y wlad
	Cymru sy'n Gyfrifol ar Lefel Fyd eang Ystyried effaith ar lesiant byd eang wrth ystyried llesiant cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol leol

Mae ein **Hasesiad Effaith Integredig (IIA)** wedi'i ddiweddarau ac mae'n chwarae rhan allweddol yn y ffordd yr ydym yn asesu'r effaith ar y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol hyn, yn ogystal â rhannau eraill o'r Ddeddf sef y nodweddion gwarchodedig, yr iaith Gymraeg, bioamrywiaeth, cadernid ecosystemau ac anafanteision economaidd-gymdeithasol. Gofynnodd yr IIA inni hefyd ddefnyddio'r data fel rhan o'r asesiad ynghyd â'r modd y cafodd y dulliau cyfathrebu ac ymgysylltu eu gweithredu (lle bo angen).

Cyfrannu at Nodau Cenedlaethol

Mae'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol yn dangos y math o Gymru yr ydym ei heisiau. Gyda'i gilydd, maent yn darparu gweledigaeth y mae'r cyrff cyhoeddus yng Nghymru yn ei rhannu ac yn gweithio tuag ati. Mae'r siart isod yn rhoi crynodeb byr o'r prif fannau lle mae ein Hamcanion Llesiant yn cyd-fynd â'r 7 Nod Llesiant Cenedlaethol. Wrth ddatblygu'r Cynllun hwn, fe wnaethon ni fapio'r ymateb arfaethedig cychwynnol i'r Nodau Llesiant Cenedlaethol. Wrth i ni nesáu at ddiwedd y fersiwn hon o'r Cynllun, rydyn ni'n parhau i sicrhau bod ganddo adnoddau effeithiol. Rydyn ni wedi adolygu ein cyfraniad presennol i'r Nodau Llesiant er mwyn canfod a oes modd inni gyfrannu mwy at y 7 Nod Llesiant Cenedlaethol trwy wneud pethau gwahanol mewn ffordd wahanol. Trwy fyfyrto a gwerthuso, rydyn ni wedi canfod enghreifftiau o'r modd y mae ein cyfraniadau wedi datblygu wrth inni weithio mewn ffyrdd gwahanol. Mae ein Hadroddiad Perfformiad Blynnyddol yn cynnig enghreifftiau o'r ffordd yr ydym wedi gwneud hyn.

Amcan Llesiant	Cyfraniadau i Nodau Llesiant yn 2017
 Y Dechrau Gorau i Fwyd	
 Bywyd Gwaith	
 Llesiant Amgylcheddol	
 Byw'n Dda	

Cyfraniadau i Nodau Llesiant yn 2020





Cyfraniadau i Nodau Llesiant yn 2021





Amcan Llesiant	Cyfraniadau i Nodau Llesiant yn 2022
 Y Dechrau Gorau i Fwyd	
 Bywyd Gwaith	
 Llesiant Amgylcheddol	
 Byw'n Dda	

Atodiad 2 – Y 5 Ffordd o Weithio

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn rhoi "egwyddor datblygu cynaliadwy" (y 5 Ffordd o Weithio) ar waith, ac yn dweud wrth sefydliadau y ffordd y dylent fynd ati i gyflawni'u dyletswydd o dan y Ddeddf. Mae unrhyw gyfeiriad at y ffaith fod corff cyhoeddus yn gwneud rhywbeth "yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy" yn golygu bod yn rhaid i'r corff weithredu mewn modd sy'n ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

Mae angen i gyrff cyhoeddus sicrhau eu bod yn ystyried effaith eu penderfyniadau ar fywydau pobl yng Nghymru'r dyfodol.

Mae yna 5 peth y mae angen i gyrff cyhoeddus eu hystyried i ddangos eu bod wedi defnyddio'r 5 Ffordd o Weithio. Bydd dilyn y ffyrdd hyn o weithio yn ein helpu i gydweithio'n well, gan osgoi ailadrodd camgymeriadau'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai o'r heriau hirdymor yr ydym yn eu hwynebu.

- | | |
|-------------------------|---|
| 1 - Hirdymor | Pwysigrwydd cydbwysu anghenion byrdymor gyda'r angen i ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion hirdymor hefyd. |
| 2 - Atal | Y modd y gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu, helpu cyrff cyhoeddus i gwrdd â'u hamcanion. |
| 3 - Integreiddio | Gan ystyried y modd y gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar eu hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill. |
| 4 - Cydweithio | Gweithio mewn cydweithrediad ag unrhyw berson arall (neu rannau gwahanol o'r corff ei hun) a allai helpu'r corff i gyflawni ei amcanion llesiant. |
| 5 - Cymryd Rhan | Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny yn adlewyrchu amrywiaeth yr ardal y mae'r corff yn ei gwasanaethu. |

EIN GWELEDIGAETH A RENNIR

“GWEITHREDU HEDDIW ER GWELL YFORY”



Y Gymru rydym yn dymuno: __



Cymru Lewyrchus



Cymru Wydn



Cymru Iachach



Cymru sy'n fwy Cyfartal



Cymru o Gymunedau



Cymru â Diwylliant Bywiog lle



Cymru

Dyma'r weledigaeth a rennir er mwyn i Ferthyr Tudful gyrraedd yno:

Cryfhau safle Merthyr Tudful fel canolfan ranbarthol Blaenau'r Cymoedd, a bod yn lle y gellir ymfalchïo ynddo, a ble hefyd:

Gall pobl dysgu a datblygu sgiliau i gyflawni eu huchelgeisiau,
Gall pobl byw, gweithio, a chael bywyd diogel, iach a bodlon,
Gall pobl ymweld, mwynhau a dychwelyd iddo


Sut bydd CBS Merthyr Tudful yn gweithio?



Hirdymor



Atal



Integreiddio



Cydweithredu



Cyfranogiad



Trechu Tlodi
Gyda'n Gilydd

Sut y byddwn ni'n cydweithio i gyflawni Ein Gweledigaeth a Rennir a chyflawni ein Nodau?

Ffocws ar y Dyfodol

Dechrau Gorau i Fywyd

Mae plant a phobl ifanc yn cael y dechrau gorau i fywyd ac mae ganddynt y sgiliau sydd eu hangen arnynt i fod yn ddysgwyr llwyddiannus ac unigolion hyderus.

Bywyd Gwaith

Mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi i ddatblygu'r sgiliau sydd eu hangen i ddiwallu anghenion busnesau gyda seilwaith diogel sy'n datblygu, sy'n gwneud Merthyr Tudful yn gyrchfan ddeniadol.

Llesiant Amgylcheddol

Mae cymunedau'n diogelu, yn gwella ac yn hyrwyddo ein hamgylchedd a'n cefn gwlad.

Byw yn Dda

Mae pobl yn cael eu grymso i fyw'n annibynnol o fewn eu cymunedau, lle maent yn ddiogel ac yn mwynhau lechyd Corfforol a Meddyliol da

Cynllun Llesiant y BGC

Gwytnwch a Llesiant Cymunedol

Hyrwyddo cymunedau diogel, hyderus, cryf a ffyniannus i wella llesiant trigolion ac ymwelwyr ac adeiladu ar ein hasedau cymunedol.

Ffyrdd o Fyw, iechyd a bod yn agored i niwedd

Helpu pobl i fyw bywydau hir ac iach a goresgyn unrhyw heriau.

Economi a Seilwaith

Tyfu economi leol gref gyda thrafnidiaeth gynaliadwy sy'n denu pobl i fyw, gweithio a chwarae yng Nghwm Taf.

Mynd i'r afael ag unigrwydd ac unigedd (Amcan trawsbynciol)

Byddwn yn gweithio mewn ffyrdd newydd i sianelu cryfderau diamheuol ein cymunedau, gan gynnwys gwirfoddolwyr, er mwyn mynd i'r afael yn fwy effeithiol â'r unigrwydd a'r unigedd sy'n aml yn bodoli o fewn llawer o'n cymunedau.

Blaenoriaethau Gwella

Gwella ein Safonau Addysg

Cynyddu ein gwytnwch ym maes Gofal Cymdeithasol

Adferiad Economaidd



